# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot and Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Jordan** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, J.Henton, J.Jones, S.Paddison, S.Pursey a/ac S.H.Reynolds |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, N.Daniel, B.Griffiths, N.Blackmore, S.Davies, T.Davies, C.Frey-Davies, C.Furlow-Harris, D.Griffiths, Chele.Howard, C.Saunders, H.Short, A.Thomas a/ac K.Warren |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn a/ac C.Phillips |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Y Cyng. T Bowen Eitem 4 (Eitem 7 ar Agenda Bwrdd y Cabinet)
Personol – aelod o'r teulu yn gweithio yn Y Gnoll

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

**Chwarter 2 - Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24**

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Dywedodd swyddogion fod gorwariant rhagamcanol o £3.4m ar ddiwedd mis Medi. Mae'r Cyngor wedi parhau i geisio ffrwyno hyn fel bod y gorwariant yn cael ei leihau a bod balansau wrth gefn yn cael eu diogelu cyn belled ag y bo modd.

Mae swyddogion wedi ystyried pob cronfa wrth gefn benodol ac wedi penderfynu a oes eu hangen o hyd ac a ellir eu hailbwrpasu. Trwy'r ymarfer hwn, mae'r Cyngor wedi llwyddo i ailbwrpasu £7.899 miliwn o gronfeydd wrth gefn penodol. Y bwriad yw paratoi tair menter drawsnewid hwy gan ddefnyddio'r  cronfeydd wrth gefn hynny.

Holodd yr Aelodau, ar dudalen 27, mewn perthynas ag Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes, yn seiliedig ar gostau hyd yn hyn y gorwariant o £132,000. Holodd yr Aelodau pa gyllid ychwanegol y cyfeirir ato yn yr adroddiad mewn perthynas â thalu am y gorwariant hwn. Cadarnhaodd swyddogion pan osodwyd cyllidebau y pennwyd lwfans cyflog o 4% a dyfarniad cyflog ychwanegol o 2% sy'n disgyn dros 4%. Bydd y cyllidebau hyn yn cael eu defnyddio i ddyrannu'r costau'n ôl i gyfarwyddiaethau gwasanaethau ac ysgolion i sicrhau bod dyfarniadau cyflog yn cael eu hariannu'n llawn.

Holodd yr Aelodau pwy gafodd ei gomisiynu i weld y Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol a beth oedd cost hyn. Cadarnhaodd swyddogion mai Edge Public Consulting a gomisiynwyd, a bod hyn wedi costio £900,000 dros dair blynedd. Cadarnhaodd swyddogion fod adroddiad yn amlinellu manylion y gwaith hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flaenorol.

O ran strategaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cael eu cyflwyno, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar ôl y Nadolig.

O ran Cynhyrchu Incwm, tudalen 33, cadarnhaodd swyddogion fod cronfeydd refeniw wrth gefn gwerth £1.5m wedi'u hailbwrpasu i ariannu cynigion buddsoddi tymor hwy. Mae angen ailbwrpasu cronfeydd refeniw wrth gefn i gyflawni cynigion trawsnewid tymor hwy wrth ddal i gynnal cyllideb cynhyrchu incwm flynyddol i gefnogi hyn, a hynny o fewn y rhaglen gyfalaf.

Nid yw'r eitem goch a nodir ar dudalen 42 sy'n cyfeirio at yr arbediad ym Mharc Gwledig y Gnoll yn gallu cael ei gyflwyno i'r gwaith arfaethedig sy'n cael ei wneud drwy'r Gronfa Ffyniant Bro. Felly, ni ellir cyflawni'r arbedion yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cadarnhaodd swyddogion, o ran digwyddiadau yn Y Gnoll, y bydd hyn yn mynd trwy broses gaffael briodol i sicrhau bod gan y Cyngor y gwerth gorau am arian ar y digwyddiadau hyn.

Cododd yr Aelodau bryderon cyffredinol am lefel y craffu y gellir ei rhoi i eitemau pan fydd y papurau ar gyfer agendâu'n hir iawn. Er bod aelodau'n cydnabod bod papurau'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen gyfreithiol, roedd yr aelodau'n pryderu am nifer yr eitemau ar agenda. Atgoffodd y Prif Weithredwr aelodau o'r adolygiad craffu parhaus. Awgrymwyd, nes i'r adolygiad hwn yn cael ei gwblhau, y sefydlir rhagor o gyfarfodydd i sicrhau y cynhelir yr holl fusnes ond gydag agendâu byrrach.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**<u>Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys - 2023/24</u>**

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Nododd yr aelodau fod nifer o acronymau drwy'r holl adroddiad. Gofynnodd yr aelodau a allai swyddogion esbonio'r acronymau mewn adroddiadau dilynol. Ymhellach, pe gellid darparu hyfforddiant ynghylch eitemau ariannol.

Dywedodd swyddogion y gellid ystyried yr elfen hyfforddi yn y rhaglen datblygu aelodau sy'n dod o dan gylch gwaith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Dywedodd swyddogion ymhellach fod gofyniad statudol i aelodau gael eu hyfforddi'n ddigonol mewn rheoli'r trysorlys. Bydd swyddogion yn trefnu'r hyfforddiant hwn maes o law. Caiff hyfforddiant cyffredinol ei drefnu hefyd yn ôl yr angen.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

**Monitro Perfformiad Chwarter 2**

Ystyriodd yr aelodau’r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Nododd yr Aelodau y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r gostyngiad yn nifer y gweithwyr sy'n dweud eu bod yn ddysgwyr a chynnydd yn nifer y gweithwyr nad ydynt am ddweud. Holodd yr Aelodau ynghylch achos sylfaenol hyn. Holodd yr aelodau hefyd ynghylch y gostyngiad mewn dechreuwyr ac ymadawyr tymor hir ac a oedd hyn yn gysylltiedig â'r pwynt cyntaf.

Dywedodd swyddogion fod y Cyngor wedi cymeradwyo Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a oedd yn nodi cynllun gweithredu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn yr awdurdod.

O ran y rhai sy'n gadael, mae'r data yn gymhariaeth o'r un cyfnod o chwe mis y flwyddyn flaenorol, ac mae'n dangos cynnydd o 36 o ymadawyr yn unig.

Holodd yr aelodau a oes mwy o gynnydd mewn mân achosion o dorri data? Cadarnhaodd swyddogion fod yr awdurdod yn cofnodi unrhyw beth sy'n achos gwirioneddol o dorri data neu unrhyw beth a allai arwain at dorri data. Darperir hyfforddiant manwl mewn perthynas â diogelu data ac mae'n rhaglen barhaus i weithwyr.

Mae'r toriadau a gofnodir yn doriadau lefel isel. Cadarnhawyd mai dim ond unwaith y mae'r Panel Toriadau, sy'n ystyried torri rheolau difrifol, wedi cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 6. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

7. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

Penderfynwyd: Gwahardd y cyhoedd o'r eitem(au) ganlynol/canlynol yn unol ag Adran 100a (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a'r paragraffau eithriedig perthnasol o Ran 4 Atodlen 12a y Ddeddf uchod.

8. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

**Comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth a Chefnogaeth Rhieni a Chymheiriaid, (Yn eithriedig o dan baragraff 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**Tendro Bysus Lleol - Dyfarniad Cymhorthdal De Minimis (Yn eithriedig o dan baragraff 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**Canolfan Celfyddydau Pontardawe (Yn eithriedig o dan Baragraff 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan y Cabinet.

**Cyllid i Wella'r Swyddogaeth Digartrefedd a Thai Strategol (Yn eithriedig o dan baragraff 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad diwygiedig a ddarparwyd gan swyddogion yn y cyfarfod, i'w gyflwyno i'r Cabinet.

**Buddsoddiad Strategol y Gwasanaethau i Oedolion (Yn eithriedig o dan baragraff 14)**

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad diwygiedig a ddarparwyd gan swyddogion yn y cyfarfod, i'w gyflwyno i'r Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**